# Cymru

## Mae llawer o waith wedi'i wneud ledled Cymru gydol y flwyddyn, gan ymgysylltu â chymunedau lleol a gwella'u llesiant cyfunol. Roedd y cyfleoedd i bobl elwa ar ein dyfrffyrdd yn cynnwys:



**Uchod:** Padlo ar hyd Dyfrbont Pontcysyllte, Camlas Llangollen



- Ym mis Chwefror, fe wnaeth 60 o ddisgyblion o Ysgol Gynradd Griffithstown gymryd rhan mewn ymgyrch achub pysgod, fel rhan o'r rhaglenni Fforwyr a Llawr Gwlad yn Nhorfaen, gyda sesiynau rhagflas Tasglu'r Llwybrau Tynnu yn denu gwirfoddolwyr newydd a grwpiau cymunedol.
- Ym mis Mai, ymgasglodd llawer ynghyd ar gyfer Triathlon Camlas Maldwyn, gyda rhai yn ymweld o dramor. Cododd y Triathlon arian ar gyfer camau nesaf y gwaith o adfer y gamlas, gyda chyfraniadau ariannol gan sawl busnes a sefydliad, gan gynnwys Tesco, gyda chynllun 'Bags of Help' cangen y Drenewydd yn cyfrannu £2,000.
- Ar 29 Mehefin 2019, dathlodd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte ddeng mlynedd fel Safle Treftadaeth y Byd UNESCO. Cafwyd cyfres o ddigwyddiadau llesiant, artistig ac addysgol, gan gynnwys gweithdai y Big LEGO Build; Ioga Awyr Agored; sesiynau addysg ar hanes a pheirianneg, gwersi diogelwch dŵr, cystadleuaeth farddoniaeth i blant, gweithdai celf a chrefft i oedolion a chynhyrchwyd ffilm pen-blwydd.
- Ym mis Gorffennaf 2019, ffilmiodd BBC Cymru Sir Gareth Edwards's Great Welsh Adventure, gan ddilyn seren y byd rygbi a'i wraig Maureen ar bedair camlas Glandŵr Cymru, wrth iddyn nhw gyfarfod llu o gydweithwyr, gwirfoddolwyr a sefydliadau partner.
- Gyda chefnogaeth cyllid gan Raglen Cyrchfannau Denu Twristiaeth Croeso Cymru, bu'r Ymddiriedolaeth yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Torfaen i greu hwb antur ym Masn Llanfihangel Pont-y-moel ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu. Roedd hyn yn cynnwys gwaith yn atgyweirio'r ddyfrbont a gwaith carthu yn Five Locks.
- Yn dilyn ei chais am ei Gwobr Baner Werdd gyntaf, datblygwyd rhaglen 'Llesiant ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu' yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y gamlas honno. Roedd y rhaglen hon yn cynnwys digwyddiadau cymunedol amrywiol, ymgysylltu mewn partneriaeth a chyfleoedd gwirfoddoli.
- Rydym yn dal ati i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid allweddol eraill i gynllunio ar gyfer effaith trwyddedu cyflenwadau dŵr ar gyfer Camlas Mynwy ac Aberhonddu i sicrhau bod adnoddau dŵr y gamlas yn cael eu cynnal i'r dyfodol.
- Rydym wrthi'n trafod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn gwella'r sefyllfa ar afon Wysg, lle rydym yn tynnu dŵr, er mwyn gofalu nad ydym yn andwyo Camlas Mynwy ac Aberhonddu.

**10 mlynedd**

**Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte yn dathlu deng mlynedd fel Safle Treftadaeth y Byd UNESCO**

> "Fe wnaeth 60 o ddisgyblion o Ysgol Gynradd Griffithstown gymryd rhan mewn ymgyrch achub pysgod, fel rhan o'r rhaglenni Fforwyr a Llawr Gwlad"

- Trwy weithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Camlas Abertawe a chynghorau Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, sicrhaodd Glandŵr Cymru £383 mil gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Datblygu Cymunedol. Cyllidodd hyn y gwaith o garthu 1.4km rhwng Trebanos a Chlydach ar Gamlas Abertawe.

- Ymgysylltodd Rhaglen Gelfyddydau Hinterlands (mewn partneriaeth â Peak Arts Cymru gyda chyllid gan Gyngor y Celfyddydau) â sawl ysgol a grŵp cymunedol lleol drwy ei rhaglen 'Ahoi What Grows Here'. Fel rhan o'r prosiect, roedd modd i bobl ifanc 16-25 oed deithio o Aberhonddu i Lanfihangel Pont-y-moel ar y cwch 'Performance Butty' gyda gofod ar gyfer perfformio, darlleniadau, sgyrsiau, barddoniaeth a cherddoriaeth.

- Fel rhan o Brosiect Adfer y Loteri Genedlaethol, darparwyd dros 30 o weithgareddau cymunedol, yn amrywio o weithgareddau celf i weithdai sgiliau gwaith coed, gyda'r cyfan yn costio ychydig dros £6,000. Roedd hyn yn cynnwys Gŵyl Drafnidiaeth y Trallwng a drefnwyd mewn partneriaeth â Chyngor Tref y Trallwng, lle daeth 500 o breswylwyr ac ymwelwyr ynghyd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cysylltiedig â'r dŵr.

- Ym mis Hydref, lansiwyd arddangosfa ffotograffiaeth yn y Drenewydd, wedi'i hysbrydoli gan Gamlas Maldwyn. Erbyn mis Mawrth, roedd wedi cyrraedd 5,500 o bobl yn ystod taith ar hyd y 'Monty'.

- Ym mis Tachwedd, croesawyd Mark Evans, Cyfarwyddwr newydd Cymru a De Orllewin Lloegr a Steven Thomas, Cadeirydd newydd Bwrdd Glandŵr Cymru i'n plith.

- Fel rhan o'n hymateb cyffredinol i'r argyfwng Coronafeirws, cyflenwodd yr Ymddiriedolaeth gyfarpar diogelwch i Gymdeithas Camlas Abertawe, a threfnodd gwirfoddolwyr yno iddo gael ei roi i'r ganolfan feddygol leol.



**Uchod:** Triongl Antur Camlas Mynwy ac Aberhonddu



**Uchod:** Dyfrbont Pontcysyllte yn dathlu 10 mlynedd ers ei dynodi'n Safle Treftadaeth y Byd



**Uchod:** Rhaglen Hinterlands o brosiectau celf sy'n ymgysylltu â'r gymdeithas



- Ar Gamlas Maldwyn ger Croesoswallt, bu'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda gwirfoddolwyr o Gymdeithas Camlas y Shropshire Union a chontractwyr i uwchraddio bron i 8km o lwybr tynnu, adfer 2km o'r gamlas rhwng Maesbury a Crickheath ac ychwanegwyd 'twll weindio' er mwyn i bobl ar gychod allu mwynhau'r adran hon.

- Yn y De, talodd cyllid trydydd sector am waith carthu ar y sianel lywio ar yr adran 1.4km o Gamlas Abertawe rhwng Clydach a Lloc Isaf Trebanos, gan alluogi i Gymdeithas Camlas Abertawe gynnal taith gwch ar y rhan hon o'r gamlas nad yw wedi gweld cychod hamdden na chychod masnachol arni ers blynyddoedd lawer.

- Mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, cefnogodd cyllid trydydd parti'r gwaith o garthu 7km o Gamlas Mynwy ac Aberhonddu o'r derfynfa ddeheuol bresennol yn Five Locks (Cwmbrân).

- Wythfed cam y gwaith o wella'r llwybr tynnu ar hyd Camlas Maldwyn yn y Canolbarth drwy weithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys, gan sicrhau 800 metr o welliannau i'r llwybr tynnu ar ran boblogaidd sy'n rhan o Rwydwaith Beicio Cenedlaethol Sustrans, ac sy'n llwybr amgen tipyn mwy diogel na'r A483 prysur.



**Uchod:** Coridorau gwyrdd, Camlas Maldwyn